# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** | **DEMOCRATIC SERVICES COMMITTEE** |
| **DYDD IAU, 12 MAWRTH 2026 am 2:00 o'r gloch** | **THURSDAY, 12 MARCH 2026 at 2.00 pm** |
| **YSTAFELL BWYLLGOR, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, AC Y RHITHIOL DRWY ZOOM** | **COMMITTEE ROOM, COUNCIL OFFICES AND VIRTUALLY VIA ZOOM** |
| **Swyddog Pwyllgor** | **Shirley Cooke 01248 752518 Committee Officer** |

**AELODAU / MEMBERS**

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

Non Dafydd, Carwyn Jones, Llio Angharad Owen *(Is-Gadeirydd/Vice Chair),* Dylan Rees, Ken Taylor

**Y Grŵp Annibynnol / The Independent Group**

Gwilym O Jones

**Plaid Lafur Cymru / Wales Labour Party**

Keith Roberts *(Cadeirydd/Chair)*

**Annibynnwyr Môn / Anglesey Independents**

Jeff Evans, Paul Ellis

## R H A G L E N

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn datganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**2** **COFNODION** (Tudalennau 1 - 4)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor a gynhaliwyd ar 4 Tachwedd 2025.

**3** **COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU – ADRODDIAD BLYNYDDOL AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL 2026-27** (Tudalennau 5 - 10)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

**4** **DATBLYGU AELODAU** (Tudalennau 11 - 16)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Dysgu a Datblygu Adnoddau Dynol.

**5** **TÎM POLISI A'R GYMRAEG: TROSOLWG O WAITH A CHYFRIFOLDEBAU** (Tudalennau 17 - 20)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Polisi a'r Iaith Gymraeg.

**6** **DIWEDDARIAD GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** (Tudalennau 21 - 24)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 4 Tachwedd 2025

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Keith Roberts (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Non Dafydd, Carwyn E Jones, Gwilym O Jones, Ken Taylor |
| **WRTH LAW:** | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd<br>Swyddog Pwyllgorau (SC) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Llio A Owen (Is-gadeirydd)<br>Y Cynghorydd Dylan Rees<br>Rheolwr Dysgu a Datblygu Adnoddau Dynol |

---

**1. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion drafft cyfarfod blaenorol y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 25 Mehefin 2025 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**3. COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU - ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL 2026-2027**

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth mewn perthynas â'r uchod.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth mai hwn yw adroddiad blynyddol drafft cyntaf y Comisiwn a'i fod yn destun ymgynghoriad tan 18 Tachwedd 2025. Bydd fersiwn terfynol yn cael ei gyhoeddi erbyn diwedd y flwyddyn galendr.

Nodwyd bod y Comisiwn yn bwriadu cynyddu'r gydnabyddiaeth ariannol i aelodau ond y mae wedi cadw at yr un fframwaith â'r panel annibynnol blaenorol ar gydnabyddiaeth ariannol. Mae'r Comisiwn yn bwriadu blaenoriaethu a diwygio'r fframwaith cyn yr etholiadau llywodraeth leol nesaf, yn barod ar gyfer yr adroddiad blynyddol y flwyddyn nesaf.

Cyfeiriwyd at y newidiadau arfaethedig i'r cyflog sylfaenol a delir i aelodau ar hyn o bryd ynghyd â'r cyflogau uwch a dinesig ar gyfer 2026/27. Bydd y cyflog sylfaenol yn cynyddu 6.4%, yn unol â'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE), ac felly bydd rhaid ymorol am gynnydd o £63,000 yng nghyllideb y Cyngor.

Amlinellodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd flaenoriaethau'r Comisiwn ar gyfer y flwyddyn i ddod. Cyfeiriodd at y taliadau i aelodau cyfetholedig ac aelodau lleyg a dywedodd nad oedd y lwfansau wedi cynyddu ers rhai blynyddoedd. Nodwyd bod Llywodraethu Cymru wrthi'n adolygu'r gydnabyddiaeth ariannol i aelodau cyfetholedig ac aelodau lleyg, ac y bydd y Comisiwn yn ystyried canlyniad yr adolygiad hwnnw.

Cafwyd trafodaeth ar fwriad y Comisiwn i ymgynghori ar p'un a ddylid darparu cydnabyddiaeth ariannol i aelodau'r Cydbwyllgorau Corfforaethol (CJC) i adlewyrchu eu hymrwymiadau a chyfrifoldebau ychwanegol.

**Fe wnaeth y Pwyllgor ystyried penderfyniadau drafft y Comisiwn ar gyfer 2026 i 2027 a PHENDERFYNWYD awdurdodi swyddogion i ymateb i'r ymgynghoriad yn unol â thrafodaethau'r Pwyllgor.**

## 4. AMSERU CYFARFODYDD Y CYNGOR - CASGLIADAU

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn dilyn yr ymgynghoriad ar amseru cyfarfodydd y Cyngor, a gynhaliwyd rhwng mis Awst a Medi eleni. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd bod 26 o aelodau etholedig a lleyg wedi ymateb i'r ymgynghoriad, sy'n ganlyniad positif.

Cafodd aelodau gyfle nodi eu hamseroedd dewisol ar gyfer cynnal cyfarfodydd y Cyngor a darparu adborth. Ar ôl dadansoddi'r ymatebion daethpwyd i'r casgliad bod nifer uchel yn ffafrio newid amser cychwyn cyfarfodydd y Cyngor Sir o 2:00pm i 1:00pm.

O ran cyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith, Pwyllgorau Sgriwtini, y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, roedd y mwyafrif o'r aelodau'n ffafrio cadw at yr amseroedd presennol. Roedd mwyafrif bychan o blaid cynnal cyfarfodydd am 2:00pm, tra bo 10:00am hefyd yn dderbyniol.

Atgoffwyd yr aelodau bod modd iddynt hawlio costau gofal ychwanegol i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau, yn cynnwys gofal plant neu oedolion dibynnol.

Cafwyd trafodaeth ar yr effaith y gall amseroedd cyfarfodydd ei gael ar ymrwymiadau gwaith aelodau, cyfrifoldebau teuluol a staff y Cyngor. Gofynnwyd pe byddai modd cadw at y trefniant presennol i gynnal cyfarfodydd rhwng Dydd Mawrth a Dydd Iau, a chadw at y calendr Pwyllgorau presennol.

**PENDERFYNWYD: -**

- **rhoi sylw dyledus i ganfyddiadau'r ymgynghoriad.**
- **cefnogi symud amser cychwyn cyfarfodydd y Cyngor Sir o 2pm i 1pm ar gyfer blwyddyn ddinesig 26/27 ymlaen am gyfnod penodol.**
- **cynnal ymgynghoriad pellach ar ddiwedd y cyfnod prawf hwn (bydd angen adolygiad pellach o amseroedd cyfarfodydd yn fuan ar ôl etholiadau Llywodraeth Leol 2027).**
- **argymell bod y Cyngor Sir yn cadarnhau newid amser cychwyn cyfarfodydd y Cyngor Sir i 1:00pm yn 2026/27 yn ei Gyfarfod Blynyddol ym mis Mai 2026.**

- **awdurdodi'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd i atgoffa aelodau o'r gallu i hawlio costau gofal.**

## 5. DATBLYGU AELODAU

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Rheolwr Dysgu a Datblygu Adnoddau Dynol a oedd yn rhoi diweddariad ar yr hyfforddiant a gynigiwyd i'r aelodau ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor hwn ym mis Mehefin 2025.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd bod nifer uchel o aelodau wedi cwblhau'r hyfforddiant mandadol yn Ynys Môn o'i gymharu ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru. Dywedodd bod gwaith pellach wedi cael ei gyflawni ar y modiwl e-ddysgu Diogelu i gwrdd â gofynion y Safonau Diogelu newydd a gyflwynwyd yn 2024. Eglurodd bod darpariaeth hyfforddiant ar gael i staff ar hyn o bryd a'i fod wrthi'n cael ei addasu i'w rannu ag aelodau ar y Porth Dysgu.

Cyfeiriwyd at y Cynllun Datblygu ar gyfer Arweinwyr Grŵp, a bod gwaith penodol wedi cael ei gwblhau a bod cynnydd da'n cael ei wneud o ran gweithredu'r Cynllun.

Nodwyd bod trafodaethau ar y gweill ar ddarparu hyfforddiant ychwanegol ar Gydraddoldeb a Chraffu i aelodau, yn ogystal â hyfforddiant gan Heddlu Gogledd Cymru ar ddiogelwch personol.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

Daeth y cyfarfod i ben am 2:45 pm

**Y CYNGHORYDD KEITH ROBERTS**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

Cyngor Sir Ynys Môn

| | |
|---|---|
| Pwyllgor: | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| Dyddiad: | 12 Mawrth 2026 |
| Teitl yr adroddiad: | Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru – Adroddiad Blynyddol ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2026-27 |
| Adroddiad gan: | Dyfan Sion<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |
| Pwrpas yr adroddiad: | Rhoi gwybod I'r Pwyllgor am benderfyniadau terfynol y Comisiwn gyfer 2026-27 |

## 1.0 Cefndir

Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol oedd yn gyfrifol yn flaenorol am bennu'r lefelau a'r trefniadau ar gyfer tâl aelodau'r sefydliadau canlynol:

- Prif gynghorau – cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol
- Cynghorau tref a chymuned
- Awdurdodau parciau cenedlaethol
- Awdurdodau tân ac achub
- Cyd-bwyllgorau corfforaethol

Yn unol â Deddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024, cafodd y Panel ei ddiddymu ar 31 Mawrth 2025, ac fe drosglwyddwyd ei swyddogaethau i'r Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ar 1 Ebrill 2025. Mae'r Comisiwn yn gorff annibynnol a noddir gan Lywodraeth Cymru. O ran cydnabyddiaeth ariannol, mae'r Comisiwn yn gallu gwneud penderfyniadau am:

- y strwythur cyflog sy'n pennu tâl yr aelodau
- y math o lwfansau a natur y lwfansau hynny sydd i'w talu i aelodau
- p'un a yw'r taliadau'n orfodol neu'n caniatáu lefel o hyblygrwydd lleol
- drefniadau o ran absenoldeb teuluol
- drefniadau ar gyfer monitro cydymffurfiaeth â phenderfyniadau'r Comisiwn

Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r sefydliadau a restrir uchod weithredu'r penderfyniadau y mae'r Comisiwn yn eu gwneud.



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

Dyma'r adroddiad blynyddol cyntaf ers i'r Comisiwn gymryd y cyfrifoldeb oddi ar Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Mae'n ystyried uwchraddio symiau lle bo hynny'n briodol ond yn gadael y fframwaith heb ei newid.

Mae'r Comisiwn yn bwriadu gwneud newidiadau sylweddol i'r fframwaith daliadau unwaith yn unig ym mhob cylch etholiadol, a hynny yn yr adroddiad cyn etholiadau llywodraeth leol. Bydd yr adroddiad nesaf (2027-28) felly'n uwchraddio'r fframwaith ar gyfer yr aelodau hynny a fydd yn cael eu hethol yn etholiadau lleol Mai 2027.

## 2.0 Ymgynghoriad ar yr adroddiad cydnabyddiaeth drafft

Ymgynghorodd y Comisiwn ar ei adroddiad drafft rhwng 23 Medi a 18 Tachwedd 2025. Ystyriodd yr adborth a dderbyniwyd a daeth i'r casgliad y byddai'r penderfyniadau drafft yn cael eu mabwysiadu ar gyfer 2026-27.

Mae gweddill yr adroddiad yma'n crynhoi'r penderfyniadau sy'n berthnasol i'r Cyngor hwn.

## 3.0 Penderfyniadau terfynol y Comisiwn ar gyfer 2026-27

Bydd y penderfyniadau canlynol yn weithredol o 1 Ebrill 2026. Mae aelodau'n cadw'r hawl i optio allan o unrhyw daliad, yn llawn neu'n rhannol. Penderfyniad unigol i aelodau yw hynny. Ni chaniateir i awdurdodau wneud penderfyniad cyfunol i optio allan o daliadau gorfodol.

### 3.1 Cyflogau a delir i aelodau etholedig

Mae'r cyflog sylfaenol, a delir i'r holl aelodau etholedig, yn gydnabyddiaeth ariannol am gyfrifoldeb cynrychiolaeth gymunedol a chyfranogiad yn y gwaith sgriwtini, rheoleiddio a swyddogaethau cysylltiedig â llywodraeth leol. Mae'n seiliedig ar drefn gyfwerth ag amser llawn o 3 diwrnod yr wythnos. Mae'r Comisiwn wedi adolygu'r ymrwymiad amser hwn, ac ni chynigir unrhyw newidiadau ar gyfer 2026-27.

Mae'r Comisiwn wedi penderfynu ei bod yn iawn cadw'r cysylltiad rhwng cyflog sylfaenol cynghorwyr a chyflogau cyfartalog eu hetholwyr. Golygai hyn gynnydd o 6.4%. Mae pob uwch gyflog yn cynnwys y cyflog sylfaenol. Ni chynigir unrhyw newidiadau i'r fframwaith bandio uwch gyflogau eleni. Bydd yr elfen gyflog sylfaenol yn cael ei chodi yn unol â'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE) a bydd yr un cynnydd hefyd yn berthnasol i elfen rôl Bandiau 1, 2, 3, 4 a 5, gan roi cynnydd o 6.4% i bob rôl.

Mae'r tabl isod yn rhestru'r swyddi sydd â hawl i uwch gyflog neu gyflog dinesig yn 2025-26 ac yn cymharu'r holl gyflogau cyfredol â'r penderfyniadau ar gyfer 2026-27:



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

| Rôl / Swydd | 2025-2026 | 2026-2027 |
|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol i'r holl aelodau, sydd wedi'i gynnwys yn yr holl uwch gyflogau a chyflogau dinesig isod | £19,771 | **£21,044** |
| **Band 1:** | | |
| Arweinydd | £63,020 | **£67,079** |
| Dirprwy Arweinydd | £44,114 | **£46,955** |
| **Band 2:** | | |
| Aelodau'r Pwyllgor Gwaith | £37,812 | **£40,247** |
| **Band 3:** | | |
| Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | £29,657 | **£31,567** |
| Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio | £29,657 | **£31,567** |
| Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion | £29,657 | **£31,567** |
| Cadeirydd y Cyngor (cyflog dinesig) | £29,657 | **£31,567** |
| **Band 4:** | | |
| Arweinydd grwp yr wrthblaid fwyaf | £29,657 | **£31,567** |
| **Band 5:** | | |
| Is-Gadeirydd y Cyngor (cyflog dinesig) | £23,726 | **£25,253** |

Bydd y cyfyngiad ar nifer yr uwch gyflogau sy'n daladwy ('y cap') yn parhau ar 17.

Bydd angen neilltuo cyfanswm o £1.038m ar gyfer taliadau i aelodau yng nghyllideb 2026-27. Mae'r newidiadu uchod yn cyfateb i gynnydd o £63k.

## 3.2 Ffioedd a delir i aelodau cyfetholedig sydd efo hawliau pleidleisio

Rhaid talu aelodau cyfetholedig efo hawliau pleidleisio ar y cyfraddau a nodir isod, sydd heb eu newid ar gyfer 2026-27:

| **Rôl** | **Fesul awr** | **Hyd at 4 awr** | **4 awr a throsodd** |
|---|---|---|---|
| Cadeiryddion pwyllgorau safonau a phwyllgorau archwilio | £33.50 | £134 | £268 |
| Aelodau cyffredin o bwyllgorau safonau sydd hefyd yn cadeirio pwyllgorau safonau ar gyfer cynghorau tref a chymuned | £29.75 | £119 | £238 |
| Aelodau cyffredin o bwyllgorau safonau (yn cynnwys cynghorwyr tref a chymuned, pwyllgorau craffu addysg a throsedd ac anrhefn a phwyllgorau archwilio | £26.25 | £105 | £210 |

Nid yw'r holl benderfyniadau sy'n weddill wedi newid o'r blynyddoedd blaenorol ond maent wedi'u cynnwys yn adroddiad cydnabyddiaeth 2026-27 er mwyn cyflawnrwydd.

## 4.0 Blaenoriaethau'r Comisiwn yn ystod y flwyddyn i ddod

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi sawl amcan allweddol i'r Comisiwn mewn perthynas â chydnabyddiaeth ariannol:

### 4.1 Taliadau ymaddasu

Gofynnwyd i'r Comisiwn ystyried pa daliadau, os o gwbl, y dylai prif gynghorau eu gwneud i gynghorwyr sy'n sefyll i gael eu hailethol ond yn aflwyddiannus. Mae'r Comisiwn wedi penderfynu y dylid sefydlu cynllun ymaddasu. Mae wedi ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet i ofyn a ydynt yn bwriadu drafftio rheoliadau i hyn fod yn weithredol ar gyfer etholiadau lleol 2027. Os byddant yn cytuno, bydd y Comisiwn yn cynnal ymgynghoriad wedyn ar sut y dylai'r cynllun edrych, fel rhan o'i waith ar gyfer adroddiad y flwyddyn nesaf.

### 4.2 Rolau uwch

Bydd y Comisiwn yn cynnal arolwg o awdurdodau, eu haelodau a chyrff cynrychioladol, i ganfod a yw'r fframwaith gydnabyddiaeth ariannol presennol ar gyfer y rhai sydd â rolau uwch yn cydnabod yn briodol ymrwymiad amser a chyfrifoldebau'r rolau hynny. Bydd unrhyw benderfyniad sy'n dilyn o'r gwaith yma'n cael ei gynnwys yn yr adroddiad blynyddol ar gyfer 2027-28.

## 4.3 Cyd-bwyllgorau Corfforedig (CBC)

Bydd y Comisiwn yn ymgynghori ynghylch a yw unrhyw gydnabyddiaeth ariannol ychwanegol yn briodol i adlewyrchu’r ymrwymiad a'r cyfrifoldebau ychwanegol mewn perthynas â CBC. Bydd unrhyw benderfyniad yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad blynyddol ar gyfer 2027-28.

## 4.4 Aelodau cyfetholedig a lleyg

Uwchraddodd y Panel gydnabyddiaeth ariannol aelodau cyfetholedig ddiwethaf yn adroddiad blynyddol 2022 a chynwysodd aelodau lleyg y CBC yn ei adroddiad atodol yn 2024. Roedd y cyfraddau’n gysylltiedig â’r cyfraddau penodiadau cyhoeddus a delir gan Llywodraeth Cymru ac nid yw rhain wedi cael eu huwchraddio ers rhai blynyddoedd. Mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau adolygiad o’r cyfraddau hyn a bydd y Comisiwn yn ystyried canlyniad yr adolygiad hwnnw cyn gwneud unrhyw benderfyniad mewn perthynas ag aelodau cyfetholedig a lleyg.

## 4.5 Cyswllt â’r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE)

Mynegodd nifer o ymatebion i ymgynghoriad eleni bryder ynghylch cysylltu taliadau aelodau â data'r ASHE. Ar gyfer ei adroddiad blynyddol nesaf, bydd y Comisiwn yn ystyried a yw dal yn briodol i barhau i’w ddefnyddio.

# 5.0 Argymhelliad

Gofynnir i’r Pwyllgor nodi’r penderfyniadau terfynol sydd yn adroddiad cydnabyddiaeth y Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ar gyfer 2026-27.

Papur cefndirol: Adroddiad Blynyddol ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2026-27; Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (19/02/2026)

[Adroddiad Blynyddol ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2026-27 | CDFfC]



Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD |
| **DYDDIAD:** | MAWRTH 2026 |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | DATBLYGIAD AELODAU |
| **ADRODDIAD GAN:** | RHEOLWR DYSGU A DATBLYGU |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | ELEN PRITCHARD |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | DARPARU DIWEDDARIAD AR FATERION DYGU A DATBLYGU AR GYFER AELODAU ETHOLEDIG |

## 1. CEFNDIR

Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar faterion dysgu a datblygu Aelodau, hynny ers yr adroddiad a gyflwynwyd ym mis Tachwedd 2025 a chan roi trosolwg o'r ddarpariaeth â gynigiwyd i'n Haelodau Etholedig dros y cyfnod diwethaf.

## 2. Y CYNLLUN

Fel y byddwch yn ymwybodol mae'r cynllun dysgu sydd wedi ei osod ar gyfer ein Haelodau Etholedig wedi'i rannu i'r penawdau penodol canlynol; **Hyfforddiant mandadol; Cyffredinol; Iechyd a Lles; Ar gais ac modiwlau e-Ddysgu**. Gyda'r penawdau penodol hyn mewn golwg, rydym yn cynnig diweddariad isod ar y ddarpariaeth hyfforddiant o fis Ebrill 2023 hyd at hyn.

Cynigiwyd cyfanswm o 60 o gyfleoedd dysgu a datblygu i'n Haelodau Etholedig gan y Tîm Dysgu a Datblygu. Calonogol yw nodi bod cydweithrediad da gyda'r Gwasanaeth Democrataidd sydd hefyd yn hwyluso hyfforddiant fwy arbenigol a phenodol ei natur. Hynny ar sail angen swyddogaethol a strategol. Mae manylion llawn wedi eu cynnwys yn Atodiad 1.

Gweler y wybodaeth ddiweddaraf isod am yr hyfforddiant sydd wedi'i ddynodi'n fandadol (fel yr amlinellir gan y Gwasanaeth Democrataidd), a'u lefelau presenoldeb cyfatebol;

| | |
|---|---|
| Côd Ymddygiad | 35/35 |
| Iechyd a Diogelwch | 34/35 |
| Cydraddoldeb, Amrywiaeth, a Chynhwysiant | 33/35 |
| Diogelu Data | 32/35 |
| Seiberddiogelwch | 35/35 |
| Diogelu | 27/35 |

Y disgwyl ydi bod pob Aelod yn mynychu'r teitlau hyn fel isafswm a bod unrhyw hyfforddiant / digwyddiadau pellach ar gael i gefnogi'r teitlau allweddol hyn.

Mae gwaith yn parhau i fynd yn ei flaen er mwyn uchafu niferoedd cwblhau y teitlau hyn.

## 3. HYFFORDDIANT DIOGELU

Yn dilyn ein diweddariad diwethaf i'r Pwyllgor hwn parthed y maes uchod hoffwn gymryd y cyfle i gynnig diweddariad pellach ynghyd ag egluro'n llawn y disgwyliad o'n Haelodau Etholedig

Gyda lansiad y fframwaith hyfforddi a safonau diogelu newydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn 2024 mae diweddariadau wedi eu gwneud i'r arweiniad yn y maes yma. Gan hynny felly mae'n dilyn bod addasiadau wedi eu gwneud i'r hyfforddiant diogelu sy'n cael ei rannu gennym fel cyflogwr.

Mae hyfforddiant diogelu bellach wedi ei ddynodi'n hyfforddiant mandadol ar gyfer pob aelod o staff y Cyngor, hynny yn ei unioni ac yn cyd-fynd â'r disgwyliad ar ein Haelodau Etholedig.

Mae'r fframwaith newydd hwn wedi ei rannu yn 7 rhan, sy'n cynnwys Grŵpiau A – F . Y gwahanol rannau yn perthnasu i rolau a chyfrifoldebau swyddogaethau gwahanol. Mae disgwyl ar i bawb gwblhau'r hyfforddiant Grŵp A fel isafswm.

Mae ein Haelodau Etholedig yn perthyn i Grŵp F. Golyga hyn bod disgwyliad arnynt i gwblhau'r modiwl e-ddysgu sy'n berthnasol i Grŵp A yn ogystal â mynychu unrhyw hyfforddiant perthnasol pwrpasol yn ôl yr angen megis Rhianta Corfforaethol, Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) a Chaethwasiaeth Fodern, hynny **pob 3 mlynedd**.

Mae'r modiwl e-ddysgu ar gael drwy'r **Gronfa Ddysgu** Cwrs: Diogelu (Grŵp A) neu ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru Grŵp A Diogelu | Gofal Cymdeithasol Cymru

Tu hwnt i hyn mae gwaith yn mynd rhagddo i fapio swyddi a'r grwpiau perthnasol sy'n perthyn i pob Gwasanaeth ynghyd â'r bwriad i ychwanegu'r ddyletswydd lefel hyfforddiant diogelu at swydd ddisgrifiad pob aelod o staff.

Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth am y Fframwaith a'r ddyletswydd sydd ar pob Grŵp drwy ddilyn y dolenni isod:

**https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau/lansiad-y-fframwaith-hyfforddiant-dysgu-a-datblygu-diogelu-cenedlaethol**

**https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/diogelu-rhestr/safonau-hyfforddiant-dysgu-a-datblygu-cenedlaethol**

## 4. CYNLLUN DATBLYGOL AR GYFER ARWEINYDDION GRWPIAU

Mae’r Cynllun hwn bellach wedi dirwyn i’w derfyn a gwaith yn mynd rhagddo i asesu llwyddiant a defnyddioldeb yr arweiniad. Yn ddibynnol ar yr adborth a geir mae’n bosib y bydd ychwanegiadau pellach yn dilyn i’r Rhaglen Dysgu a Datblygu Aelodau Etholedig.

## 5. CYFATHREBIADAU

Mae'r cydweithio agos rhwng y Tîm Dysgu a Datblygu a’r Gwasanaeth Democrataidd ac unrhyw Swyddogion perthnasol eraill yn yr Awdurdod yn parhau i’w gyfrif yn effeithiol. Hynny’n sicrhau bod unrhyw gynllun yn mynd i'r afael ag anghenion ein Haelodau Etholedig ac yn parhau i esblygu’n ôl y gofyn.

Mae gwahoddiadau i fynychu hyfforddiant yn parhau i gael eu rhannu drwy'r trefniadau arferol drwy gyfeiriad e-bost *CefnogaethAelodau*, yn ogystal â gwahoddiadau trwy apwyntiadau calendr electronig uniongyrchol.

Rhennir adroddiadau chwarterol gyda'r Gwasanaethau Democrataidd, sydd wedyn yn cael eu rhannu gydag ein Harweinyddion Grŵp. Bydd yr adroddiadau hyn yn cynnwys manylion am hyfforddiant mandadol a'r holl hyfforddiant arall a gwblhawyd o fewn y chwarter penodol hwnnw.

## 6. FFURF TROSGLWYDDO

Ar y cyfan, mae'r sesiynau’n cael eu cynnal fel sesiynau ystafell ddosbarth gyda rhai enghreifftiau lle’n addas ac yn berthnasol i fod yn cynnig rhai sesiynau rhithiol. Noder, bod y dull cyflwyno’n ddibynnol ar y pwnc dan sylw yn ogystal â pha ddull a gynigir / ffefrir gan y darparwr Hyfforddiant.

Mae Aelodau Etholedig yn parhau i gael cynnig y dewis o fynychu sesiwn o fewn diwrnod gwaith arferol neu sesiwn gynnar gyda'r nos i sicrhau bod ymrwymiadau'r Aelodau Etholedig yn cael eu hystyried ynghyd â chynyddu presenoldeb ar sesiynau.

## 7. I GRYNHOI

Mae'r cynllun dan sylw yn parhau i’w chyfri’n esblygol a bydd yn parhau i gael ei hadolygu a'i diwygio’n ôl y gofyn, e.e. yn dilyn newidiadau mewn Deddfwriaeth; gweithdrefnau; Materion allanol ac ati. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn gallu ymateb i'r anghenion a nodwyd a sicrhau ddarpariaeth amserol.

## 8. ARGYMHELLIAD

I nodi cynnwys yr adroddiad.

**Cynnig hyfforddiant a datblygiad i Aelodau Etholedig 2023 - 2026**

**Training and Development offered to Elected Members 2023 - 2026**

| Teitl y Cwrs (Cymraeg) | Mynychwyd / Attended | Gwahoddwyd / Invited | Course Title (English) |
|---|---|---|---|
| Côd Ymddygiad | 1 | 1 | Code of Conduct |
| Côd Ymddygiad | 2 | 2 | Code of Conduct |
| Côd Ymddygiad | 3 | 3 | Code of Conduct |
| Cyfansoddiad y Cyngor | 1 | 1 | Council Constitution |
| Delio gyda'r Wasg | 3 | 8 | Dealing with the Press |
| Diogelu i Aelodau | 6 | 14 | Safeguarding for Members |
| Sesiwn Sgiliau TGCh 1-i-1 | 3 | 3 | 1-to-1 ICT Skills Session |
| Sesiwn Sgiliau TGCh 1-i-1 | 2 | 3 | 1-to-1 ICT Skills Session |
| Sesiwn Sgiliau TGCh 1-i-1 | 2 | 2 | 1-to-1 ICT Skills Session |
| Sesiwn Sgiliau TGCh 1-i-1 | 2 | 3 | 1-to-1 ICT Skills Session |
| Sesiwn Sgiliau TGCh 1-i-1 | 2 | 3 | 1-to-1 ICT Skills Session |
| Sesiwn Sgiliau TGCh 1-i-1 | 0 | 1 | 1-to-1 ICT Skills Session |
| Ymwybyddiaeth Ofalgar x2 (agored i bawb) | 0 | 35 | Mindfulness Awareness x2 (open to all) |
| Ymwybyddiaeth Menopos (agored i bawb) | 0 | 35 | Menopause Awareness (open to all) |
| Sgiliau Cadeirio | 1 | 2 | Chairing Skills |
| Sgiliau Cadeirio | 3 | 3 | Chairing Skills |
| Sgiliau Craffu Effeithiol | 1 | 1 | Principles of Effective Scrutiny |
| Cyflwyniad i Newid Hinsawdd | 11 | 26 | Introduction to Climate Change |
| Cyflwyniad i Newid Hinsawdd | 4 | 21 | Introduction to Climate Change |
| Cyflwyniad i Newid Hinsawdd | 3 | 19 | Introduction to Climate Change |
| Cyflwyniad i Newid Hinsawdd | 3 | 12 | Introduction to Climate Change |
| Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant | 0 | 4 | Equality, Diversity & Inclusion |
| Diogelu Data | 6 | 13 | Data Protection |
| Diogelu Data | 8 | 12 | Data Protection |
| Ymwybyddiaeth Diogelu i Aelodau | 9 | 12 | Gypsies and Travellers' Cultural |
| Ymwybyddiaeth Diwylliannol Sipsiwn a Theithwyr | 13 | 30 | Awareness |
| Ymwybyddiaeth Twyll a Llygredd | 12 | 44 | Fraud and Corruption |
| Ymwybyddiaeth Twyll a Llygredd | 4 | 44 | Fraud and Corruption |
| Beth mae'n ei olygu i fod yn Ynys sy'n Wybodus am Drawma? | 5 | 11 | What does it mean to be a Trauma Informed Island |
| Fideo Seibr-ddiogelwch | 2 | 2 | Cyber Security Video |
| Arweinyddiaeth Gymunedol Flaengar I Gynghorwyr | 1 | 1 | Progressive Community Leadership Training |
| Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant | 0 | 4 | Equality, Diversity & Inclusion |
| Iechyd a Diogelwch i Aelodau | 7 | 20 | Health & Safety for Members |
| Iechyd a Diogelwch i Aelodau | 4 | 20 | Health & Safety for Members |

| Teitl y Cwrs (Cymraeg) | Fynychwyd / Attended | Gwahoddwyd / Invited | Course Title (English) |
|---|---|---|---|
| Gwrth-Hiliaeth | **9** | **35** | Anti Racism |
| Gwrth-Hiliaeth | **9** | **35** | Anti Racism |
| Grŵp 6: Cryfhau Arweinyddiaeth (VAWDASV) | **9** | **35** | Group 6: Strengthening Leadership (VAWDASV) |
| Rhentu Doeth Cymru | **10** | **20** | Rent Smart Wales |
| Grŵp 6: Cryfhau Arweinyddiaeth (VAWDASV) | **6** | **16** | Group 6: Strengthening Leadership (VAWDASV) |
| Cynllunio i Aelodau | **26** | **34** | Planning for Members |
| Gwrandawiadau'r Pwyllgor Safonau ar y Côd Ymddygiad | **6** | **10** | Standards Committee's Code of Conduct Hearings |
| Cynllunio –Cyfarwyddyd Erthygl 4 | **23** | **33** | Planning - Article 4 Direction |
| Iechyd a Diogelwch i Aelodau | **9** | **9** | Health and Safety for Members |
| Diogelu Data (cwrs staff yn agored i bawb) | **4** | **6** | Data Protection (staff course open to all) |
| Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (cwrs Cymraeg i staff, wedi agor i bawb) | **0** | **5** | Equality, Diversity, and Inclusion (Welsh staff course opened to all) |
| Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (cwrs Saesneg i staff, wedi agor i bawb) | **1** | **5** | Equality, Diversity, and Inclusion (English staff course opened to all) |
| Seibrddiogelwch i Aelodau | **1** | **1** | Cyber Security for Members |
| Craffu ar y Gyllideb: Edrych Ymlaen | **2** | **-** | Budget Scrutiny: Looking Forward |
| Seibrddiogelwch (fideo) | **1** | **1** | Cyber Security (video) |
| 'Cyber Ninjas' i Gynghorwyr | **7** | **7** | 'Cyber Ninjas' session for Councillors |
| Dangos Effaith - Gofyn y cwestiwn 'felly beth' | **3** | **-** | Demonstrating Impact - Asking the 'so what' question |
| Ymwybyddiaeth o'r Iaith Gymraeg | **1** | **1** | Welsh Language Awareness |
| Gweithdy Cyfathrebu a Chydweithio (DiSC©) | **2** | **2** | Communication and Collaboration workshop (DiSC©) |
| Gweithdy Cyfathrebu a Chydweithio (DiSC©) | **1** | **-** | Communication and Collaboration workshop (DiSC©) |
| Gweithdy Cyfathrebu a Chydweithio (DiSC©) | **1** | **-** | Communication and Collaboration workshop (DiSC©) |
| Cyflwyniad i Newid Hinsawdd (cwrs staff yn agored i bawb) | **1** | **-** | Introduction to Climate Change (staff course open to all) |
| Cydraddoldeb, Amrywiaeth, a Chynhwysiant (cwrs staff yn agored i bawb) | **3** | **4** | Equality, Diversity, and Inclusion |
| Rheoli Emosiynau a'r Rôl Wleidyddol yng Ngolwg y Cyhoedd | **1** | **-** | Managing Emotions and the Political Role in the Public View |
| Sgiliau Cadeirio (un cwrs, tair sesiwn) | **1** | **-** | Chairing Skills (one course, three sessions) |
| Craffu Effeithiol a Strategaethau Cwestiynu | **10** | **10** | Effective Scrutiny and Questioning Strategies |
| Diogelu Data (cwrs staff yn agored i bawb) | **0** | **2** | Data Protection (staff course open to all) |

| Teitl y Cwrs (Cymraeg) | Mynychwyd / Attended | Gwahoddwyd / Invited | Course Title (English) |
|---|---|---|---|
| Côd Ymddygiad (sesiwn un-i-un) | **1** | **1** | Code of Conduct (one-to-one session) |
| Seibrddiogelwch (fideo) | **1** | **1** | Cyber Security (video) |
| Arwain yn Ddiogel a Diogelwch Personol i Aelodau (fideo) | **IG / TBC** | **1** | Safe Leadership and Personal Safety for Members (video) |

| CYNGOR SIR YNYS MON | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| **Dyddiad:** | 12 Mawrth 2026 |
| **Teitl yr adroddiad:** | Tîm Polisi a'r Gymraeg: Trosolwg o waith a chyfrifoldebau |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | Mae'r adroddiad hwn yn darparu trosolwg cryno ond cynhwysfawr o waith, cyfrifoldebau a strwythur Tîm Polisi a'r Gymraeg, sy'n rhan annatod o Adran Gwasanaethau Democrataidd y Cyngor. Ei nod yw sicrhau bod aelodau'r Pwyllgor yn deall rôl strategol y tîm wrth gefnogi cydymffurfiaeth, llywodraethu cadarn, a datblygu diwylliant positif o ran y Gymraeg a chydraddoldeb ar draws y Cyngor. |
| **Awdur:** | Ffreuer Owen, Rheolwr Polisi a'r Gymraeg |

## Cefndir

1. Mae'r tîm yn gweithredu fel prif ganolbwynt ar gyfer:

    - Cydymffurfiaeth statudol â Deddf Cydraddoldeb 2010 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
    - Cefnogi'r Cyngor i wireddu ymrwymiadau'r Cynllun Cyngor ar gyfer 2023 i 2028 o ran hyrwyddo'r Gymraeg a sicrhau tegwch.
    - Cyflawni swyddogaethau craidd sy'n sail i wneud penderfyniadau effeithiol gan y Cyngor, y Pwyllgor Gwaith a phwyllgorau eraill.

## Strwythur y tîm

2. Dan arweiniad **Rheolwr Polisi a'r Gymraeg**, mae'r tîm yn cynnwys:

    - **Swyddog Polisi**
    - **Swyddog Cefnogi Polisi a'r Gymraeg**
    - **Gwasanaeth Cyfieithu'r Cyngor**, yn cynnwys Rheolwr Gwasanaethau Cyfieithu a thri chyfieithydd sy'n darparu cyfieithu testun ac ar y pryd.

3. Mae'r strwythur hwn yn caniatáu ymateb dibynadwy, arbenigol a chyflym i anghenion statudol a gweithredol y Cyngor.

## Prif ddyletswyddau statudol a gweithredol

4. **Cynlluniau strategol statudol**
   Mae'r tîm yn gyfrifol am baratoi, gweithredu a monitro dau gynllun craidd:

   - Cynllun Cydraddoldeb Strategol
   - Strategaeth Hybu'r Gymraeg

   Sicrha'r cynlluniau hyn bod y Cyngor yn gweithredu'n unol â'r gyfraith ac yn cyflawni ei ymrwymiadau i gymunedau Ynys Môn.

5. **Cyngor polisi ac asesu effaith**
   Mae'r tîm yn darparu cyngor polisi ar ystod o faterion sy'n berthnasol i gydraddoldeb a'r Gymraeg, yn cynnwys cefnogi gwasanaethau i gynnal asesiadau effaith. Mae'r asesiadau hyn yn sicrhau bod argymhellion polisi ac adroddiadau i bwyllgorau'r Cyngor yn gadarn, yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn ystyried goblygiadau ar gymunedau.

6. **Rhyngweithio â chyrff rheoleiddio**
   Mae'r tîm yn gweithredu fel y prif gyswllt gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a Chomisiynydd y Gymraeg.

   Yn ogystal, mae'r tîm yn paratoi dau adroddiad blynyddol sy'n cael eu craffu gan y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio.

7. **Cyfieithu**
   Trwy'r cyfieithwyr, darpara'r tîm wasanaeth cyfieithu testun ac ar y pryd safonol Cymraeg / Saesneg i wasanaethau a phwyllgorau'r Cyngor er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Polisi Iaith Gymraeg.

8. **Codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant**
   Mae'r tîm yn cydweithio ag Adnoddau Dynol i drefnu hyfforddiant cydraddoldeb a dosbarthiadau Cymraeg i staff ac aelodau.

   Mae hefyd yn cynnal ymgyrchoedd hyrwyddo rheolaidd megis *Croeso Cymraeg, Her Gymraeg y Mis,* a *Cipolwg Cydraddoldeb.* Cydweithia'n gyson â swyddogion Cydlyniad Cymunedol rhanbarthol ar ddeunyddiau ymwybyddiaeth, megis calendr cydraddoldeb y Cyngor.

   Mae ystod o ddeunyddiau cefnogi ar gyfer staff ac aelodau ar gael ar y fewnrwyd, MonITor, a safle e-ddysgu y Gronfa Ddysgu.

9. **Gweithio mewn partneriaeth**
   Mae'r tîm yn:

   - Gweinyddu **Grŵp Llywio'r Gymraeg a Chydraddoldeb**

- Hwyluso gwaith **Fforwm Iaith Ynys Môn**
- Cefnogi dau **aelod bencampwr** dros y Gymraeg a Chydraddoldeb
- Cydweithio'n agos â phartneriaid rhanbarthol a chenedlaethol

10. **Dyletswyddau eraill o bwys**

- Cynghori ar faterion iaith Gymraeg yn y maes cynllunio
- Cydlynu'r **Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned**
- Gweinyddu'r **Porth Polisi**, sef adnodd mewnol ar gyfer polisi a llywodraethu
- Paratoi blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith ac adroddiadau ar lwfansau aelodau
- Darparu cefnogaeth weinyddol ychwanegol i'r Adran Gwasanaethau Democrataidd
- Cydlynu presenoldeb y Cyngor yn **Eisteddfod yr Urdd 2026**

## Casgliad

Mae'r Tîm Polisi a'r Gymraeg yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o sicrhau cydymffurfiaeth, atebolrwydd, a chynllunio strategol o fewn yr Adran Gwasanaethau Democrataidd. Trwy gefnogi aelodau a swyddogion, cydlynu hyfforddiant ac asesiadau effaith, a gweithredu fel y prif gyswllt â rheoleiddwyr, mae'r tîm yn helpu i feithrin diwylliant o dryloywder, tegwch, a gwasanaeth dwyieithog o safon uchel.

## Argymhellion i'r Pwyllgor

Gofynnir i'r Pwyllgor:

a. Nodi cynnwys yr adroddiad
b. Cyfeirio unrhyw gwestiynau neu sylwadau at sylw'r awdur

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MON | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Gwasanaeth Democrataidd |
| **Dyddiad:** | 12 Mawrth 2026 |
| **Teitl yr adroddiad:** | Diweddariad Gwasanaethau Democrataidd |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | Diweddaru'r Pwyllgor ar waith llywodraethu a chefnogi y gwasanaeth. |
| **Awdur:** | Dyfan Sion, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |

**Cefndir**

1. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar waith y gwasanaeth democrataidd mewn perthynas a llywodraethiant a chefnogaeth aelodau.

**Adroddiadau Blynyddol Aelodau Etholedig**

2. Derbyniwyd 23 (66%) adroddiad blynyddol aelod etholedig ar gyfer 2024/25. Mae hyn yn is na'r 26 a dderbyniwyd ar gyfer 23/24. Er hynny, mae'r ganran o adroddiadau a dderbyniwyd yn cymharu'n ffafriol gyda chynghorau eraill ar draws y gogledd. Mae'n bwysig nodi hefyd nad oes gofyn statudol ar aelodau i ddychwelyd adroddiad.

3. Byddwn yn cychwyn y broses o atgoffa aelodau o'r angen i ddarparu adroddiad ar gyfer 25/26 yn y dyddiau nesaf. Byddwn hefyd yn rhannu templed a chyfarwyddiadau ar gyfer cwblhau'r adroddiad ac yn dilyn hynny i fyny gyda negeseuon atgoffa rheolaidd. Bydd gofyn i'r adroddiadau gael eu cwblhau a'u dychwelyd erbyn diwedd mis Mai.

**Cofrestr datgan diddordeb**

4. Caiff aelodau eu hatgoffa o'r angen i ddiweddaru eu cofrestrau o fewn 28 diwrnod gwaith i unrhyw newid mewn amgylchiadau.

5. Anfonwyd y neges atgoffa ddiweddaraf i aelodau ym mis Ionawr. Roedd yn cynnwys cyfarwyddiadau ar gyfer diweddaru'r gofrestr ar-lein ac yn cynnig yr opsiwn i gysylltu gyda swyddogion os am gymorth pellach.

**Sgyrsiau datblygu blynyddol a chofnodion hyfforddiant**

6. Caiff diweddariadau ar hyfforddiant aelodau eu hanfon at arweinyddion grŵp perthnasol yn rheolaidd. Mae hynny'n fodd o fonitro presenoldeb mewn hyfforddiant, a hyfforddiant mandadol yn benodol. Mae'r lefelau cwblhau hyfforddiant mandadol wedi gwella dros y misoedd diwethaf yn sgil ymdrechion y tim dysgu a datblygu a'r gwasanaeth democrataidd.

7. Mae proses "sgwrs flynyddol" mewn lle ar gyfer arweinyddion grŵp a'u haelodau. Trefniant ydi hwn i alluogi arweinydd grŵp i drafod datblygiad yr aelod dan sylw ac unrhyw faterion eraill perthnasol fel llesiant ac hyfforddiant. Cafodd templed sgwrs flynyddol 25/26 ei rannu gyda arweinyddion grŵp ar 23 Chwefror.

8. Mae cynnwys y sgyrsiau yn gyfrinachol rhwng yr arweinydd a'r aelod, ond gofynnwn i'r arweinyddion rannu unrhyw wybodaeth am ofynion hyfforddiant sy'n codi o'r sgyrsiau fel bod modd eu cynnwys yng nghynlluniau hyfforddi a datblygu'r Cyngor.

**Llesiant Aelodau**

9. Mae'n bosibl bydd rhai materion llesiant yn codi yn ystod y sgyrsiau datblygu, ac mae gwasanaeth cwnsela Medra ar gael i aelodau'r Cyngor. Mae'n wasanaeth proffesiynol a chyfrinachol ac ar gael yn Gymraeg neu'n Saesneg. Mae gwybodaeth wedi ei rannu gyda aelodau yn flaenorol am y gwasanaeth a byddwn yn cysylltu eto yn ystod yr wythnos llesiant cenedlaethol ym Mehefin.

10. Ymhellach i hynny, rydym yn ymwybodol bod aelodau etholedig yn destun ymddygiad bygythiol a sylwadau sarhaus ar adegau. Mae gan Heddlu Gogledd Cymru swyddog sy'n cynghori ar faterion aelodau etholedig ac mae hyfforddiant ar gael i aelodau ar ddiogelwch. Anfonwyd gwybodaeth at aelodau ar 3 Mawrth.

**Ymgysylltu**

11. Cafodd sesiwn "galw i mewn" ei beilota gyda'r Bwrdd Iechyd ym mis Tachwedd. Trefnwyd bod rhai o uwch swyddogion rhanbarthol y Bwrdd Iechyd ar gael i glywed pryderon ac ateb cwestiynau aelodau. Roedd yn sesiwn agored ac anffurfiol ac mae'r adborth wedi bod yn gadarnhaol. Yn sgil hynny byddwn yn trefnu sesiwn arall yn ystod 2026.

12. Mae disgyblion blynyddoedd 5 a 6 ysgolion cynradd yr Ynys wedi cael gwahoddiad i ymweld a'r Siambr a chael sesiynau cwestiwn ac ateb gyda aelodau. Mae 5 ysgol wedi ymweld gyda'r Cyngor yn 25/26 ac mae trefniadau i wahodd rhagor o ysgolion yn 2026.

13. Mae adolygiad cymunedol o drefniadau etholiadau cynghorau tref a chymuned wedi cychwyn ym mis Ionawr. Fel rhan o'r adolygiad, rydym yn ystyried os ydi

niferoedd y ward etholiadol a nifer yr aelodau ar gynghorau tref a chymuned yn addas.

14. Mae ymgynghoriad cychwynnol yn mynd ymlaen ar hyn o bryd gyda dyddiad cau 13 Mawrth. Yn dilyn hynny byddwn yn ystyried y sylwadau ac yn cynnal ymchwil pellach cyn ymgynghori ar gynigion yn yr hydref. Byddwn yn mynd a'r cynigion drafft i'r Cyngor Sir ym mis Medi.

**Etholiadau**

15. Mae'r gwasanaeth yn paratoi ar gyfer cynnal etholiad Senedd Cymru ar 7 Mai. Mae Ynys Mon yn rhan o etholaeth Bangor Conwy Mon ac rydym yn cydweithio gyda Cyngor Conwy ar y trefniadau.

16. Bydd y cyfnod cyn etholiad yn dechrau ar 26 Mawrth. Yn ystod y cyfnod yma, bydd busnes arferol y Cyngor yn parhau, ond mae'n rhaid i'r Cyngor osgoi unrhyw weithgarwch a allai ddylanwadu ar yr etholiad neu roi mantais annheg i unrhyw ymgeisydd neu blaid. Mae canllaw cyn-etholiad wedi ei rannu gyda rheolwyr yn y Cyngor a bydd yn cael ei ddiweddaru yn agosach at yr etholiad.

**Argymhelliad**

17. Gofynnir i'r Pwyllgor:
    a. nodi cynnwys yr adroddiad, ac
    b. ystyried unrhyw anghenion pellach mewn perthynas a chefnogaeth aelodau

This page is intentionally left blank